

Ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yng Nghyfraith Cymru a phenodi Comisiynydd Pobl Anabl

Llinell Gyntaf

Yn 2009, ymrwymodd y DU i Gofensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRPD).¹ Ond fwy na degawd yn ddiweddarach nid yw hawliau pobl anabl yn cael eu hymgorffori mewn cyfraith, sy'n golygu na allant gymryd camau cyfreithiol os caiff eu hawliau eu torri. Mae hefyd yn hen bryd sefydlu Comisiynydd Pobl Anabl, y byddai ei g/chyfrifoldebau yn cynnwys hyrwyddo a lleisio hawliau pobl anabl, ac ymchwilio pan dorrid hawliau o'r fath.

Prif Ofynion

Rydym yn galw ar bob plaid wleidyddol i ymrwymo i:

- ddeddfu i ymgorffori hawliau pobl anabl yng nghyfraith Cymru.
- Sefydlu Comisiynydd Pobl Anabl, y byddai ei g/chyfrifoldebau yn cynnwys ymchwilio unrhyw enghreifftiau o dorri hawliau pobl anabl.

Ystadegau

- Yn y flwyddyn yn diweddu ym mis Mawrth 2019, roedd menywod anabl ddwywaith yn fwy tebygol o fod wedi profi trais yn y cartref (17.3 y cant) na menywod nad ydynt yn anabl (7.0 y cant).²
- Mae canran y bobl anabl (13.3 y cant) sy'n dweud eu bod yn teimlo'n unig "yn aml neu drwy'r amser" bron bedair gwaith y ganran o bobl nad ydynt yn anabl (3.4 y cant), ac mae'r gwahaniaeth mwyaf ymhlith oedolion ifanc 16 i 24 oed.³

Cyd-destun

Yn 2009, ymrwymodd y DU i Gofensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.⁴ Ond fwy na degawd yn ddiweddarach nid yw hawliau pobl anabl yn cael eu hymgorffori mewn cyfraith, sy'n golygu na allant gymryd camau cyfreithiol os caiff eu hawliau eu torri.

Er tegwch, mae fframwaith presennol Llywodraeth Cymru ar weithredu ar fyw'n annibynnol yn cyflwyno gweledigaeth ar gyfer gweithredu'r UNCRPD. Ond polisi yn hytrach na chyfraith ydyw, ac nid yw'n cynnig mecanwaith ar gyfer unioni camweddau i bobl anabl.

¹ <https://www.equalityhumanrights.com/en/our-human-rights-work/monitoring-and-promoting-un-treaties/un-convention-rights-persons-disabilities>

² Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol, Improving disability data in the UK: 2019, <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/disability/articles/improvingdisabilitydataintheuk/2019>

³ Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol, Improving disability data in the UK: 2019, <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/disability/articles/improvingdisabilitydataintheuk/2019>

⁴ <https://www.equalityhumanrights.com/en/our-human-rights-work/monitoring-and-promoting-un-treaties/un-convention-rights-persons-disabilities>

Gwybodaeth gefndir

Yn 2017, gwnaeth Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau gyfres o argymhellion, gan gynnwys y dylid ymgorffori'r Confensiwn yn gyfraith gan Seneddau gwahanol y DU.⁵

Yn 2018, cytunodd Aelodau'r Senedd heb wrthwynebiad ag egwyddorion cynnig deddfwriaethol i ymgorffori Datganiad y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl yng nghyfraith Cymru.⁶

Yn 2019 a 2020, mae pandemig Covid-19 wedi amlygu'r angen i sicrhau bod hawliau pobl anabl yn cael eu cadarnhau mewn cyfraith.⁷

Mae'n hen bryd rhoi'r hawliau hyn mewn deddfwriaeth.

Ac mae'n hen bryd sefydlu Comisiynydd ar gyfer Pobl Anabl, a fyddai'n gyfrifol am hyrwyddo ac eiriol dros hawliau pobl anabl ac ymchwilio enghreifftiau o dorri hawliau o'r fath. Yn briodol iawn mae gan Gymru Gomisiynydd Plant, Comisiynydd Pobl Hŷn, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Comisiynydd y Gymraeg, Comisiynydd Traffig a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddau. O ystyried y nifer fawr o bobl sy'n anabl, neu a fydd yn mynd yn anabl yn ystod eu bywydau, mae'n gwbl briodol fod deddfwriaeth hefyd yn sefydlu Comisiynydd ar gyfer Pobl Anabl.

⁵ https://tbinternet.ohchr.org/_layouts/15/treatybodyexternal/Download.aspx?symbolno=CRPD%2fC%2fGBR%2fCO%2f1&Lang=en

⁶ <https://record.assembly.wales/Plenary/5356#A45899>

⁷ <http://qpol.qub.ac.uk/disabled-peoples-rights-during-the-covid-19-crisis/>